Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

| Eitem | Dyddiad | |
|---|---|---|
| | 13.06.23 | |
| Teitl | | Er |
| Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar | | Gwybodaeth |
| Crynodeb o'r Materion | | |

CEFNDIR:

Yn 2018 roedd Llywodraeth Cymru wedi gwahodd cynigion gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i fod yn fraenarwyr *(Pathfinders)* ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Cyflwynwyd cais gan Awdurdodau Lleol Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, i fod yn ardaloedd braenaru. Cafwyd cyllid (2019 - 2024) i beilota a phrofi ffyrdd o Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar, a ffurfiwyd Grŵp Llywio Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar. Ym mis Ionawr 2021, llwyddodd Sir Benfro â'u cais nhw i ymuno â'r Rhaglen Fraenaru ac felly mae pob Awdurdod Lleol ym mhatrwm daearyddol Hywel Dda wedi bod ynghlwm â'r Rhaglen.

Yn 2021/ 2022 bu cynrychiolwyr o'r tri Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cydweithio i lunio Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Mae'r Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru wedi ei llywio gan agenda Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy integredig, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gefnogaeth yn ystod 7 mlynedd gyntaf y plentyn, gan gydnabod pwysigrwydd y blynyddoedd ffurfiannol hyn wrth siapio iechyd a lles y plentyn at y dyfodol.

Ymgynghorwyd yn eang ar y strategaeth ddrafft gyda gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaethau ledled y rhanbarth, a gwnaed gwelliannau ar sail yr adborth a gafwyd. Roedd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2022 a dyma'r ymatebion a gafwyd:

- Ymgynghoriad ar-lein – 54 o ymatebion
- Grwpiau ffocws rhieni – 55 wedi cymryd rhan
- Grwpiau ffocws gweithwyr proffesiynol – 28 wedi cymryd rhan
- Cafwyd ymatebion oddi wrth: Tîm Gofal Plant; Nyrsys Ysgol; Tîm Bydwreigiaeth; Tîm Ymwelwyr Iechyd; Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg; Tîm Therapi Iaith a Lleferydd

- Yn ogystal, yng Ngheredigion, cafwyd cyfarfodydd gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Lesiant Gydol Oes i ystyried y strategaeth ddrafft.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth a'r wefan wedi cael ei oruchwylio gan y Grŵp Llywio Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.

Nod y Strategaeth yw hyrwyddo cydweithio rhwng gwasanaethau cymorth yn y cyfnodau cyn geni a'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r strategaeth i'w gweld ar wefan Strategaeth Gorllewin Cymru ar gyfer Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar sy'n ffrwyth cydweithio rhwng awdurdodau lleol Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a phartneriaid trydydd sector (mae'r strategaeth ar gael hefyd ar ffurf PDF ar y wefan).

Ar sail ymgynghori helaeth gyda Defnyddwyr Gwasanaethau a Gweithwyr Proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar, lluniwyd Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar gyda'r nod o hyrwyddo gwasanaethau rhagorol ar bob cam o Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar. Nod y strategaeth yw cyflawni'r canlynol:

- Ymgysylltu'n gadarnhaol/ ymyrryd yn gynnar gyda theuluoedd yn y cyfnod cyn geni
- Ymgysylltu'n gadarnhaol gyda theuluoedd yn y Blynyddoedd Cynnar
- Pontio'n gadarnhaol rhwng Gofal Plant ac addysg y Blynyddoedd Cynnar

Yn ogystal, nodwyd pum thema strategol fel cyfrwng i gyflawni'r amcanion uchod:

- Integreiddio ein gwasanaethau
- Cymryd agwedd sy'n canolbwyntio ar y person wrth ddylunio gwasanaethau
- Datblygu seilwaith a systemau technolegol i alluogi cydweithio
- Datblygu ein Gweithlu
- Darparu gwybodaeth hygyrch

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes goblygiadau ariannol yn uniongyrchol i'r BGC/PSB, ond nid yw'r cyllid ar gyfer Rhaglen Fraenaru ac Integreiddio Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar yn gwbl sicr ar ôl Mawrth 2024 a bydd angen mynd ar ôl cyllid pellach i gefnogi'r agenda trawsnewid.

**Argymhellion**

Bod y BGC/PSB yn rhoi ei gefnogaeth i Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar.

**Atodiadau**

Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru – Gweithio gyda'n gilydd i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant (strategaethblynyddoeddcynnargorllewin.cymru)

| |
|---|
| [Maternity & Early Years Strategy for West Wales – Working together to give children the best start in life (earlyyearsstrategywest.wales)]<br><br>Strategaeth-ar-gyfer-Gorllewin-Cymru.pdf MaternityEarlyYearsStrategyForWestWales |
| Swyddog Adrodd |
| Iwan Davies |